| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Mawrth 2014** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Ivan Butler - Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **fel uchod** |
| **Teitl:** | **Strategaeth Archwilio Mewnol Ddrafft 2014-15** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno strategaeth ddrafft ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol 2014-15 er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn gofyn iddo ystyried strategaeth gynllunio archwilio gwasanaeth archwilio mewnol y Cyngor; felly mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth ac ystyriaeth yn unig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar Strategaeth Archwilio Mewnol ddrafft fwriedig 2014-15.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol ddrafft 2014-15 ynghlwm fel Atodiad 1. Gan fod y gwasanaeth wedi symud i'r Gwasanaeth Gwella Busnes a Moderneiddio'n ddiweddar, mae'r Strategaeth yn drosolwg o le mae'r gwasanaeth yn debygol o dreulio ei amser yn ystod 2014-15, wrth aros am adolygiad ar y gweill o sut y gall y Cyngor wella a chydlynu ei ddull o ddarparu sicrwydd a gwella gwasanaethau.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol ar hyn o bryd yn ymgynghori gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac yna bydd yn gweithio gyda rheolwyr eraill yn y Gwasanaeth Gwella Busnes a Moderneiddio erbyn diwedd mis Awst i ddatblygu dull o sicrwydd a gwella gwaith a fydd yn diweddu gyda Strategaeth Archwilio Mewnol newydd o fis Medi 2014.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd a chyngor i bob lefel o reolaeth ac aelodau etholedig ar ansawdd y gweithrediadau o fewn y Cyngor. Mae ei waith yn canolbwyntio ar lywodraethu, rheoli risg, perfformiad, effeithlonrwydd a rheoli gweithredol ac ariannol, gyda phob un ohonynt yn hanfodol i gyflawni blaenoriaethau

corfforaethol. Mae hefyd yn cynnal prosiectau i sicrhau fod y Cyngor ar y trywydd iawn i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a phrosiectau penodol i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth a moderneiddio.

**6. Faint fydd hyn yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau cost neu wasanaeth penodol sy'n codi o'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid yw'r adroddiad hwn angen penderfyniad neu gynnig ar gyfer newid, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ni fu unrhyw ymgynghori ar y Strategaeth ddrafft yn ystod y cam hwn, ond mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol ar hyn o bryd yn ymgynghori â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar ofynion manylach y gwasanaeth a sut y gellir cydlynu ei ddull yn y dyfodol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw effaith ariannol, ac felly nid oes angen datganiad.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Gan fod y Strategaeth Archwilio Mewnol mewn cyfnod drafft cynnar iawn, nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â hi ar hyn o bryd, ond bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth i'r ymgynghoriad â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ddatblygu.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn, ond mae gofyniad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i'r 'pwyllgor archwilio' oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor.